# DAVIES, JOHN DANIEL (1874 - 1948), golygydd ac awdur

**Enw:** John Daniel Davies
**Dyddiad geni:** 1874
**Dyddiad marw:** 1948
**Priod:** Mary Ellen Davies (née Humphreys)
**Rhiant:** Daniel Davies
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** golygydd ac awdur
**Maes gweithgaredd:** Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Argraffu a Chyhoeddi
**Awdur:** John Williams James

Ganwyd 12 Ionawr 1874, yn y Gwynfryn, Aberderfyn, Ponciau, yn un o saith o blant i Daniel Davies a'i wraig. Wedi dyddiau ysgol aeth yn brentis argraffydd at David Jones, Rhosymedre, ac wedi hynny at Richard Mills, argraffydd y *Rhos Herald*. Priododd Mary Ellen, merch William Humphreys ('Elihu'), Blaenau Ffestiniog, 25 Ebrill 1900. Daeth i fyw i Flaenau Flestiniog ac yn olygydd a pherchennog *Y Rhedegydd* yn 1906. Yr oedd yn bregethwr gyda'r Bedyddwyr Albanaidd. Nid oedd ball ar ei edmygedd o J. R. Jones, Ramoth; gweler ysgrif ganddo yn *Y Geninen*, Ebrill 1922). Enillodd gadair yn eisteddfod Penmachno gyda phryddest, ' Temtiad Crist '. Nid ymgeisiodd am wobrwyon wedi hynny, ond ymrôdd ati i gyfansoddi emynau, pregethau, Holwyddoreg i blant, ac ysgrifau ar amryw destunau. Cyhoeddodd *Emynwyr Gwynedd*, 1905, *Saith Canhwyllbren Aur* (pregethau), a ' Hanes y Bedyddwyr Albanaidd a Champelaidd yng Nghymru ', (yr olaf yn *Cymdeithas Hanes Bedyddwyr* 1940-1). Golygodd *Yr Ymwelydd*, cylchgrawn y Bedyddwyr Albanaidd, am flynyddoedd. Bu farw 9 Ebrill 1948, a chladdwyd ef ym mynwent Bethesda, Blaenau Ffestiniog.

## Awdur

**Y Canghellor John Williams James**

## Ffynonellau

*Y Rhedegydd*, Ebrill 1948

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20751809

**Dyddiad cyhoeddi:** 1970

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu